Senedd Cymru / Welsh Parliament
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and Communications Committee
Ymchwiliad i'r achosion o COVID-19 ac effaith y feirws ar ddiwylliant, y diwydiannau creadigol, treftadaeth, cyfathrebu a chwaraeon / Inquiry into the COVID-19 outbreak and its impact on culture, creative industries, heritage, communications and sport
CWLC COV51
Ymateb gan Celf ar y Blaen / Response from Head4Arts

Celf ar y Blaen – Ymateb ar Effaith Covid

**Cefndir**

Mae Celf ar y Blaen yn sefydliad celfyddydau cymunedol dim-er-elw sy'n gweithredu ar draws Merthyr Tudful, Blaenau Gwent, Caerffili a Thorfaen, ardal sy'n cynnwys rhai o'r cymunedau mwyaf amddifadus yn economaidd yn y Deyrnas Unedig. Caiff Celf ar y Blaen ei lywodraethu ar hyd braich gan bartneriaeth o dri awdurdod lleol a thair ymddiriedolaeth hamdden ac mae'n aelod o Bortffolio Celfyddydol Cyngor Celfyddyddau Cymru.

**Ein Cenhadaeth:** Darparu rhaglenni celfyddydau cyfranogol sy'n ysbrydoli ac yn newid y ffordd y mae pobl yn gweld eu hunain a'r byd o'u hamgylch.

**Ein Gweledigaeth:** Bod Cymoedd De Ddwyrain Cymru yn rhanbarth o gymunedau hyderus, creadigol, iach a medrus, lle mae gan bawb fynediad cyfartal i ragoriaeth artistig drwy brofiadau celfyddydol cyfranogol.

**Ein Nodau:** Dileu tlodi diwylliannol drwy ddarparu cyfleoedd celfyddydol sydd yn:

- Hybu iechyd corfforol a llesiant meddwl da
- Datgloi potensial
- Helpu i adeiladu cymunedau cryf a chynaliadwy
- Gweithio ar draws pob dull celf, gyda phobl o bob oedran, i ddarparu profiadau celfyddydol ansawdd uchel sy'n ysbrydoli ac yn cyflwyno cyfranogwyr i ddulliau celf newydd ac yn datgloi eu potensial creadigol.

Gweithiwn gyda sefydliadau partner o ystod o sectorau, gan ddefnyddio'r celfyddydau i gyflawni amrywiaeth o ddeilliannau cymdeithasol ac ysgogi newid cadarnhaol mewn cymunedau lleol.

Cynhelir ein gwaith mewn canolfannau cymunedol, stadau tai, ysgolion, ysbytai, parciau lleol, safleoedd treftadaeth, canolfannau ieuenctid, theatrau, llyfrgelloedd, cartrefi preswyl – unrhyw leoliad lle cawn gyfle i gysylltu gyda phobl ac yn annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau creadigol.

*Mae gan Celf ar y Blaen 2 aelod llawn amser o staff (un ar gyfnod mamolaeth ar hyn o bryd) a chaiff rolau staff eraill eu cyflawni drwy gytundebau lefel gwasanaeth gyda sefydliadau diwylliannol eraill. Caiff ei brosiectau, gweithdai, digwyddiadau, gweithgareddau galw heibio, sesiynau hyfforddiant a pherfformiadau rhanbarthol oll eu cyflwyno drwy weithwyr proffesiynol celfyddydol llawrydd, gan wneud Celf ar y Blaen yn un o'r prif gyflogwyr (a ffynhonnell incwm) ar gyfer ystod eang o ymarferwyr creadigol sy'n byw yn y rhanbarth.*

**Ein Gwaith:** Mae ein rhaglen yn cwmpasu 7 maes thema gydag amcanion sy'n gysylltiedig â thargedau deddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac sy'n adlewyrchu Cynlluniau Llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yr ardal. Drwy'r dull hwn rydym yn sicrhau fod

ein gwaith yn parhau'n berthnasol ac yn cyfrannu mewn modd defnyddiol tuag at flaenoriaethau rhanbarthol a ddynodwyd i drechu tlodi.

**Cydraddoldeb ar y Blaen:** Ymestyn ein cyrraedd fel bod pawb yn cael mynediad cyfartal i gymryd rhan yn y celfyddydau.

**Hapusrwydd ar y Blaen:** Darparu gweithgareddau celfyddydau cyfranogol ansawdd uchel, dan arweiniad proffesiynol sy'n dod â chymunedau ynghyd i wrthsefyll profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, unigrwydd ac arwahanrwydd.

**Iechyd ar y Blaen:** Trefnu prosiectau celfyddydol creadigol sy'n gwella llesiant cymunedau ac yn cefnogi iechyd da parhaus.

**Dysgu ar y Blaen:** Darparu rhaglenni celfyddydau cyfranogol blaengar sy'n hyrwyddo ymgysylltu gyda dysgu, ysgogi diddordeb yn y Gymraeg ac ymchwilio treftadaeth ddiwylliannol.

**Cyfleoedd ar y Blaen:** Cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus artistiaid ar bob cam o'u gyrfaoedd, gan annog amrywiaeth a hyrwyddo arfer gorau yn effeithlon mewn gosodiadau celfyddydau cymunedol cyfranogol.

**Gofodau Gwyrdd ar y Blaen:** Defnyddio gofodau gwyrdd mewn modd creadigol i ddarparu profiadau celfyddydol sy'n adeiladu cymunedau diogel a chyfeillgar sy'n gwerthfawrogi'r amgylchedd naturiol a mwynhau bod yn yr awyr agored.

**Y Dyfodol ar y Blaen:** Defnyddio grym y celfyddydau i godi ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol i hyrwyddo gweithredu cadarnhaol dros newid, annog ffyrdd o fyw mwy cynaliadwy a dychmygu dyfodol gwell.

## Beth fu effaith uniongyrchol Covid 19 ar sefydliadau celfyddydau cymunedol tebyg i ni?

- Gan fod ein gwaith yn golygu cyswllt uniongyrchol gyda phobl, yn aml aelodau mwyaf bregus ein cymunedau, cafodd ein rhaglen ei chau lawr ar unwaith neu ei chanslo i gydymffurfio gyda gofynion y cyfnod clo.

- Roedd effaith uniongyrchol ar gyfranogwyr, gan fod llawer o'n gwaith yn canolbwyntio ar gefnogi llesiant cymunedol. I rai unigolion, gwyddom ein bod yn rhaff bywyd sy'n eu cysylltu gyda gwasanaethau eraill. Fe wnaeth canslo sesiynau am gyfnod amhenodol beri gofid a phryder i'n cyfranogwyr.

- Fe wnaeth ymyrryd ar ddarparu gwasanaethau i sefydliadau partner. Roedd hyn neilltuol o broblemus lle'r oedd y gwaith yn gysylltiedig â chyllid grant oedd ag amserlen ar gyfer darparu nad oedd yn bosibl mwyach, a allai o bosib olygu fod angen i ni ddychwelyd y cyllid.

- Roedd yn golygu canslo digwyddiadau blynyddol allweddol, fel digwyddiadau rhanbarthol yr Awr Ddaear ddiwedd mis Mawrth. Mae ein gwaith yn cydbwyso gweithgareddau graddfa fach wedi eu targedu gyda digwyddiadau mwy fel hyn, lle mae cyfranogiad torfol. Bydd hyn yn golygu na fyddwn yn cyrraedd ein ffigurau cyfranogiad targed ar gyfer 2019/20 a'n bod wedi colli cyfle pwysig i godi ein proffil yn genedlaethol.

- Gohiriwyd safoni ar gyfer yr Arts Award – gan olygu na fedrodd 7 o bobl ifanc ar raglenni addysg amgen ennill eu hachrediad Efydd. I rai, gall hyn fod yr unig gymhwyster maent yn debygol o'i ennill ac roedd eu siom yn ddealladwy.

- Cafodd Covid 19 effaith ddifrifol ar incwm llawer o'r ymarferwyr celfyddydau cymunedol llawrydd a fyddai fel arferyn darparu ein rhaglen waith. Er i ni wneud ein gorau i anrhydeddu pob contract oedd yn eu lle, roedd llawer ohonynt yn disgwyl cymryd rhan mewn prosiectau newydd, neu i'w contractau gael eu hadnewyddu, ddechrau mis Ebrill. Mae posibilrwydd na all rhai o'r ymarferwyr hyn barhau gyda'u gwaith llawrydd ar ôl argyfwng Covid, gan ein gadael gyda bwlch mewn arbenigedd.

- Mae gan Celf ar y Blaen drefniant llywodraethu partneriaeth cymhleth, yn cynnwys 6 o awdurdodau lleol ac ymddiriedolaethau. Fe wnaethom ddatblygu cynlluniau parhad busnes ond nid oedd yn rhwydd ymgynghori a chyfathrebu gydag aelodau ein Grŵp Llywio gan yr ymyrrwyd ar eu bywydau hwythau. Cafodd dau eu rhoi ar gyfnod ffyrlo, yn cynnwys ein harweinydd gweithredol. Ar ôl cwpl o wythnosau, bu farw (oherwydd Covid) ein swyddog arweiniol ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr. Mae ei weddw hefyd yn aelod o'r Grŵp Llywio (ar gyfer Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr) gan greu ansicrwydd am y rheolaeth yn un o'r siroedd lle gweithredwn. Fe wnaeth colli cydweithiwr uchel ei barch hefyd effeithio ar ysbryd ein tîm.

- Mae'r bwlch a adawyd gan gau'r cwmnïau cenedlaethol mawr, sinemâu a chyfleusterau hamdden wedi cynyddu llawer ar y galw am waith gan sefydliadau celfyddydau cymunedol fel ni, ond dyma'r sector sydd debycaf o fod yn gweithredu ar gyllideb gynnil iawn a gall hyn arwain at ludded staff.

Yn dilyn canslo ein rhaglen arferol, bu tîm Celf ar y Blaen yn brysur yn ceisio addasu ein hymarfer yn y cyd-destun newydd. Mae hyn wedi cynnwys:

- Ailgynllunio sut y gallai'r tîm weithio o gartref a goresgyn y rhwystrau technegol a gweinyddol.

- Cefnogi symud sesiynau cyfranogol cerddoriaeth a chorau i lwyfan ar-lein – a chefnogi'r ymarferwyr celfyddydol sy'n arwain y sesiynau i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y ffordd newydd hon o weithio.

- Datblygu protocolau a chanllawiau newydd ar gyfer gweithgareddau cyfranogol ar-lein.

- Newid y ffordd y cyflwynwn ein gwaith fel y gellid trosglwyddo mwy o weithgareddau i lwyfannau ar-lein. Mae hyn hefyd yn golygu cefnogi artistiaid nad ydynt wedi arfer cyflwyno gwaith yn y ffordd hon. Mae ein cynnig ar-lein yn awr yn cynnwys gweithdai cyfranogol, ffrydio byw a pherfformiadau chwedleua wedi eu ffilmio.

- Ymchwilio effaith bosibl Covid 19 a'r cyfyngiadau symud ar iechyd meddwl a llesiant ein cymunedau a chreu rhaglenni newydd o waith i gyd-fynd â'r cyd-destun newydd hwn (yr hyn y dylem ei wneud ar unwaith a'r hyn y dylem fod yn meddwl amdano ar gyfer y dyfodol). Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi llyfr stori ar gyfer teuluoedd, gan greu'r testun o syniadau a gyfrannwyd gan gyfranogwyr cymunedol, yn seiliedig ar eu profiadau, ofnau a phryderon yn ystod y cyfnod cyfyngiadau symud.

- Dyfeisio ffyrdd newydd i gefnogi llesiant aelodau mwyaf difreintiedig ein cymunedau (h.y. y rhai oedd fwyaf ynysig/ar y rhestr warchod, rhai gyda phroblemau blaenorol yn effeithio ar eu hiechyd meddwl neu gydag amgylchiadau neilltuol o anodd, a rhai heb fynediad i gefnogaeth ar-lein). Mae hyn yn cynnwys rhaglen newydd o ddosbarthiadau 'crefftau carreg drws' a luniwyd gan artistiaid arbenigol i ddarparu gweithgareddau sy'n trin teimladau o ynysigrwydd a phryder. Hefyd – benthycwyd fan Transit Celf ar y Blaen i grwpiau gwirfoddol oedd yn darparu dosbarthiadau brys ar gyfer bwyd a moddion ym Mlaenau Gwent.

- Addasu prosiectau blaenorol fel y gellid eu cynnig ar-lein i gynulleidfa ehangach i gefnogi cynlluniau addysg gartref (e.e. Prosiect Pont, a ail-luniwyd fel bod gan rieni nad ydynt yn siarad Cymraeg gynnwys y gallent ei ddefnyddio gyda phlant sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg.

- Creu ffyrdd newydd o ddefnyddio amser y cyfnod clo i roi cefnogaeth i artistiaid llawrydd fel y gallent barhau i ennill bywoliaeth e.e. drwy greu a chynhyrchu'r pecynnau 'crefftau carreg drws'; cymryd rhan mewn rhaglen breswyl ar-lein a chreu 'rhaglen dysgu iaith cyfnod clo' i wella eu gallu i gyflwyno eu gwaith yn ddwyieithog. (Mae hyn yn rhoi amser astudiaeth ar dâl iddynt a'r potensial i wella eu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth ar ôl y cyfnod clo).

- Comisiynu ymchwil ac ymgynghori gyda chyrff arbenigol eraill i lywio datblygu rhaglen ranbarthol i gefnogi teuluoedd a gafodd brofedigaeth yn ystod y cyfnod clo ac ymbellhau cymdeithasol lle nad oedd yn bosibl cynnal angladdau ac i deuluoedd ddod ynghyd fel arfer.

- Gwneud partneriaethau newydd gyda grwpiau gwirfoddol cymunedol a gafodd eu creu i ddosbarthu bwyd a moddion argyfwng i'r bobl fwyaf bregus, fel y gallai ein crefftau carreg drws gyrraedd y sawl y'u bwriadwyd ar eu cyfer mewn modd diogel. Mae wedi arwain at greu cynigion newydd, mewn ymateb i anghenion penodol a

ddynodwyd ganddynt (e.e. ymadawyr ysgol Blwyddyn 11 oedd yn bryderus am gael eu gwthio i'r anhysbys heb gymwysterau 'go iawn', pobl hŷn a gyfyngwyd i'w hystafelloedd mewn llety gwarchod).

- Cydnabod yr amgylchiadau anodd sy'n wynebu graddedigion diweddar a'r rhai ar fin graddio drwy ymchwilio sut y gallwn gefnogi 'interniaeth rithiol', gan helpu i lansio gyrfaoedd yn y celfyddydau.

Fel llawer o sefydliadau celfyddydol cymunedol bach, rydym yn gyfarwydd ag addasu i newid yn anghenion ein cymunedau ac rydym yn awr yn canfod ffyrdd newydd i'n galluogi i gyflenwi nodau ein cynllun busnes. Fodd bynnag, mae angen cynyddol am ein gwasanaethau ac adnoddau ariannol cyfyngedig. Gall hyn weithiau deimlo yn llethol.

**Pa mor effeithiol y mae'r gefnogaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y Deyrnas Unedig a chyrff hyd braich wedi mynd i'r afael ag anghenion y sector?**

Cafodd y rhan fwyaf o'r gefnogaeth oedd ar gael ei sianelu drwy gynlluniau cyllid Cyngor Celfyddydau Cymru. Roedd Cyngor Celfyddydau Cymru yn rhagorol wrth gysylltu â ni yn gyflym i ganfod sut oeddent yn ymdopi ac yn cynnig cyngor ar gefnogaeth ariannol. Roeddem yn gwerthfawrogi'r llyw clir i aelodau'r Portffolio Celfyddydol am yr angen i anrhydeddu contractau yr oedd artistiaid llawrydd wedi methu eu cyflenwi.

Mae Celf ar y Blaen mewn sefyllfa llawer mwy ffodus na llawer o sefydliadau ac ni fu'n rhaid i ni hyd yma wneud cais am gyllid argyfwng neu osod unrhyw aelodau staff ar ffyrlo. Nid oes gennym unrhyw adeiladau i'w cynnal ac ychydig iawn o ran gorbenion. Roeddem hefyd wedi bod yn ofalus i ddatblygu 'clustog' ariannol argyfwng yn ein cyllidebau y credem y medrid bod ei angen yn dilyn Brexit. Mae'r rhan fwyaf o'n gweithgareddau yn rhad ac am ddim i'r sawl sy'n cymryd rhan, felly nid oeddem yn colli unrhyw incwm o werthiant. Gwnaed rhai arbedion drwy beidio medru cyflenwi rhai rhaglenni gwaith ac o beidio trefnu llanw dros gyfnod mamolaeth aelod o staff. Gallodd pawb ohonom weithio o'n cartrefi a hynny i gapasiti llawn.

Mae hyn wedi golygu i ni fedru dweud nad oedd gennym unrhyw angen brys am gefnogaeth ariannol ychwanegol yn y tymor byr, ac y byddai'n well cynnig y gefnogaeth yma mewn man arall. Nid yw hyn yn wir am lawer o gyrff cyfranogol eraill – ac yn sicr nid yn wir am yr artistiaid llawrydd sy'n gweithio gyda ni.

Gallwn weld ei bod yn debygol y bydd y math o waith a wnawn yn awr yn parhau am gyfnod hir ac nid dim ond am ychydig fisoedd. Hyd yn oed pan gaiff y cyfnod clo ei lacio, bydd ymbellhau cymdeithasol ar waith am gyfnod hir. Ni fydd ein cydweithwyr sy'n rhedeg theatrau a gwyliau yn medru gweithredu o gwbl. Rydym yn bryderus am y dyfodol a'n gallu i gyflawni gofynion o fewn ein cyllideb gyfyngedig.

Senedd Cymru / Welsh Parliament
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and Communications Committee
Ymchwiliad i'r achosion o COVID-19 ac effaith y feirws ar ddiwylliant, y diwydiannau creadigol, treftadaeth, cyfathrebu a chwaraeon / Inquiry into the COVID-19 outbreak and its impact on culture, creative industries, heritage, communications and sport
CWLC COV51
Ymateb gan Celf ar y Blaen / Response from Head4Arts

## Beth fydd effeithiau hirdymor tebygol Covid-19 ar y sector a pha gefnogaeth sydd ei hangen i ymdrin â'r rheini?

Mae ein rhaglen gwedd newydd a'n dull cydweithio yn golygu ein bod yn gwneud partneriaethau newydd drwy'r amser. Mae trafodaethau eisoes yn mynd rhagddynt am sut y gall Celf ar y Blaen weithio gyda gwasanaethau eraill i helpu pobl gyda gwaddol corfforol a meddyliol y cyfnod clo a phrofedigaeth. Mae cynlluniau eisoes ar y gweill fel y gallwn weithio gyda sefydliadau eraill tebyg i dimau seicoleg cymunedol, gweithwyr iechyd, sefydliadau tai cymdeithasol, cartrefi gofal, sefydliadau arbenigol ar brofedigaeth, caplaniaid a chyfarwyddwyr angladdau wrth lunio'r gwasanaethau y bydd pobl angen cael mynediad iddynt.

Mae gennym hefyd waith pwysig arall i'w gyflawni wrth gael pobl yn ôl i'r gwaith, cefnogi cyfleoedd addysgol a gollwyd, paratoi pobl ar gyfer y newidiadau mewn ffordd o fyw fydd eu hangen i fynd i'r afael â phroblemau newid hinsawdd a'r argyfwng bioamrywiaeth. Rydym eisiau cymryd rhan mewn rhaglen ryngwladol sy'n cefnogi cydraddoldeb ac ymarfer cydweithiol - ond rydym yn ofni na fydd sefydliadau celfyddydol cymunedol bach yn rhan o'r trafodaethau am gefnogaeth i'r sector a bod perygl y caiff ein hangen am gymorth ariannol ei golli yn yr ymdrechion i helpu'r cwmnïau cenedlaethol mwy. Mae sefydliadau fel ein un ni yn rhan hanfodol o'r ecoleg ddiwylliannol ond ofnwn y caiff ein lleisiau eu colli neu eu diystyru.

## Pa wersi y gellir eu dysgu o'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y Deyrnas Unedig, cyrff hyd braich a'r sector wedi ymdrin â Covid-19?

Dangosodd y sector celfyddydau cymunedol, er y gorfodwyd i lawer o'r prif sefydliadau diwylliannol cenedlaethol gau eu drysau, bod y sefydliadau llawer llai hyn wedi medru addasu'n gyflym ac yn effeithlon i'r newid cyflym mewn amgylchiadau, fel y gallant barhau i ymateb i anghenion pobl Cymru.

Maent wedi defnyddio eu profiad o gydweithredu a chyd-greu i ddarparu ymatebion arloesol i'r heriau sy'n wynebu cymunedau yn ystod y cyfnod hwn o argyfwng. Dylem ddysgu fod sector celfyddydau llewyrchus angen y ddau fath o sefydliad i ffynnu ac er ei bod yn amlwg bod sefydliadau cenedlaethol mwy angen cefnogaeth ychwanegol, ni ddylai hynny fod ar draul y sector celfyddydau cymunedol.

### Sut mae modd i'r sector esblygu ar ôl Covid-19, a sut y gall Llywodraeth Cymru gefnogi arloesedd o'r fath i ymdrin â heriau yn y dyfodol?

Gwelwn y bydd angen gwneud llawer o waith yn y dyfodol a theimlwn fod gan ein sefydliad y capasiti a'r profiad i chwarae rhan yn yr adferiad cymdeithasol ac economaidd ar ôl argyfwng Covid.

Bydd angen i sefydliadau cenedlaethol mwy weithio'n agosach gyda sefydliadau bach fel ni, sy'n gweithredu ar lawr gwlad. Mae gennym yr hyblygrwydd i fedru addasu i newid mewn

anghenion a gallwn sicrhau fod manteision cymryd rhan yn y celfyddydau yn ymestyn i bawb, nid dim ond y breintiedig neu rai sy'n byw yn y dinasoedd.

Edrychwn ymlaen at gyfnod o fwy o gydweithredu, cyd-greu, mwy o dryloywder a chydnabyddiaeth o werth ymarfer sydd yn ymgysylltu'n gymdeithasol. Mae'n ddiddorol, ar adeg o argyfwng, fod pobl yn naturiol (ac yn amlwg iawn) wedi troi tuag at gyfranogiad yn y celfyddydau fel rhaff bywyd i gefnogi llesiant ac i ddod â phobl ynghyd. Eto rydym yn gyson yn gorfod gwneud yr achos dros y celfyddydau a phrofi gwerth ein cyfraniad. Oni fyddai'n wych pe na byddem mwyach yn gorfod cyfiawnhau gwerth ac effaith ein gwaith, ac yn syml iawn yn cael y cyfle a'r cyllid i wneud ein gwaith gorau.